

**Nifer y busnesau o'r sector Tir Âr sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio:**

**710**

**Nifer y busnesau o'r sector Garddwriaeth sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio:**

**267**

**Rhwydwaith Arddangos**


**Mapio pridd er mwyn rheoli tir yn fanwl gywir**

Mapiwyd y pridd yn safle arddangos Pantyderi gan ddefnyddio offer sganio dargludedd trydanol ar 60 ha o dir âr a 40 ha o laswelltir. Mae'r broses hon yn mapio'n fanwl sut mae nodweddion pridd yn amrywio ar draws cae cyfan. Yna, gellir rhannu'r caeau'n barthau rheolaeth ar sail y canlyniadau. Mae samplu'r pridd yn y parthau hyn mewn modd strategol yn cynnig darlun mwy manwl y gellir ei ddefnyddio er mwyn rheoli faint o galch a maetholion y dylid eu gwasgaru yn ôl gofynion y parthau.

**Gwasgaru calch ar gyfradd amrywiol**

Yn y diagram isod, er bod pridd y cae cyfan wedi'i ddynodi'n bridd llwyd silt tywodlyd, mae parthau A a B yn cynnwys priddoedd gyda mwy o dywod ac mae parthau C a D yn cynnwys mwy o silt a chlai.

Mae'r lliwiau ar y map yn dynodi pH, ac mae'r gwaith o samplu'r pridd yn nodi bod parthau A a C angen mwy o galch er mwyn dod â pH y pridd i'r lefel orau posibl er mwyn cynhyrchu glaswellt, sef 6.3. Pe byddai lefelau pH cyfartalog y cae wedi cael eu defnyddio er mwyn cyfrifo faint o galch a oedd angen ei wasgaru, byddai dau barth heb gael digon o galch, a byddai'r ddau barth arall wedi cael gormodedd, gan arwain at wastraff.



Mae defnyddio'r mapiau pridd wedi adnabod arbedion ariannol o ran gwasgaru calch ar y glaswelltir a'r tir âr gan ddefnyddio dulliau o wasgaru ar gyfradd amrywiol:

Cyfradd	Glaswelltir		Tir âr	
	Arferol	Amrywiol	Arferol	Amrywiol
Tunelli o galch	182.1	171.3	170.0	146.0
Cost	<b>5,463</b>	<b>5,139</b>	<b>5,100</b>	<b>4,380</b>



Rhoddyd y data ar gyfer y cae i'r contractwr ar gerdyn SD a osodwyd ym mhanel rheoli GPS y tractor er mwyn cwblhau'r broses.

**Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth**

Erthyglau Technegol a gyhoeddwyd:

- CARBON A NEWID HINSAWDD – TROSOLWG
- CNYDAU SY'N GWRTHSEFYLL SYCHDER AT Y DYFODOL
- A ALL FFERMIO MANWL GYWIR HELPU I LINIARU NEWID HINSAWDD?
- MAPIO PRIDD ER MWYN RHEOLI TIR YN FANWL GYWIR
- HERIAU A FYDD YN CODI YN Y DYFODOL WRTH DDARPARU GWASANAETHAU GAN GOETIROEDD YNG NGHYMRU
- RHEOLI NEWID MEWN ARGAELEDD DŴR CROYW A PHRINDER DŴR AR Y FFERM

**Gwella rheolaeth pridd a da byw i ddatblygu gallu dal carbon y pridd a lleihau ôl-troed carbon yn safle arddangos Hendre Ifan Goch**



Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar wella gallu dal carbon y pridd yn safle arddangos Hendre Ifan Goch. Yn dilyn samplu'r pridd a dadansoddi'r canlyniadau, mae lefelau cyffredinol y carbon yn y priddoedd yn dda, ond mae lefelau'r carbon gweithredol yn isel. Mae hyn yn dangos diffyg gweithgarwch biolegol yn y pridd.

Ar sail y samplau, mae'n ymddangos mai un o'r prif ffactorau cyfrannol yn yr achos hwn yw bod dŵr yn symud yn rhydd yn y pridd. Mae hyn yn arwydd o dreiddiad dŵr gwael o fewn y pridd, gan nad yw'r dŵr yn gallu symud i lawr y pridd. Felly, awgrymodd arbenigwr y prosiect, Gareth Davies, i greu amodau pridd mwy ffafriol ar gyfer gweithgarwch biolegol. Gellir cyflawni hyn drwy wella treiddiad dŵr y pridd. Byddai hyn hefyd yn lleihau lefelau uchel o haearn o fewn y pridd. Awyrwyd y pridd ar gaeau'r prosiect yn ystod Ebrill 2020 i wella treiddiad y dŵr.

Awgrymodd Gareth hefyd i ychwanegu rhywfaint o ffosfforws (P) a photash (K) i bob un o'r caeau eleni. Er bod y rhain yn bresennol yn barod yn y pridd a ddadansodwyd, maent yn anhygyrch ar hyn o bryd o ganlyniad i ddiffyg gweithgarwch biolegol. Ffactor cyffredin arall yw'r lefelau Boron (B) isel sy'n bresennol yn y pridd, felly awgrymir y dylai Boron gronynnol gael ei ychwanegu at bob un o'r caeau.



**EIP**

**15** O BROSIECTAU YN YMWNEUD Â THIR WEDI'U CYMERADWYO yn gweithio gyda



**40** O FFERMWYR A CHOEDWIGWYR

**Gwella gwybodaeth a phrofiad o ddulliau rheoli plâu integredig ar ffrwythau meddal yng Nghymru gan ddefnyddio llai o blaladdwyr ac atal gwastraff**



Gall rheoli plâu mewn cynyduau ffrwyth meddal fod yn heriol, a gyda'r awydd i gyfyngu'r defnydd o gemegau, mae'r grŵp o ffermwyr sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn yn Ne Cymru yn ymchwilio i sut all rheoli plâu integredig gynhyrchu dull mwy cynaliadwy o reoli plâu. Er mwyn datblygu strategaeth rheoli plâu, mae'n rhaid dechrau gydag adnabod

lefelau'r plâu yn y cnwd drwy fonitro cyson a chywir. Gyda hyn yn y cof, maent wedi datblygu strategaeth monitro sydd wedi ei chyhoeddi fel taflen ffeithiau, a ellir cael ei lawrlwytho o wefan Cyswllt Ffermio, i gynorthwyo ffermwyr sydd â diddordeb mewn datrys y broblem hon. Fel y bydd y prosiect yn datblygu, bydd y grŵp yn gallu sôn am beth sydd wedi gweithio orau iddyn nhw a sut allant roi strategaethau rheoli biolegol ar waith yn effeithiol yn eu busnes.

## Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi cael cymorth drwy Gategoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



**Derbyniodd 43 o unigolion gymorth drwy Gategoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.**



**Derbyniodd 35 grŵp gymorth drwy Gategoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.**

Adborth gan fusnesau ar y Gwasanaeth Cyngori:

*“Defnyddiol ac addysgiadol iawn. Bydd y gwasanaeth yn ein helpu wrth wrteithio ac ailblannu yn y dyfodol.”*

*“Dealltwriaeth arbennig o faetholion cnwd.”*

*“Dysgais i wybodaeth ynglŷn â'r lefelau angenrheidiol o faetholion ar y cae.”*

## Beth yw amaeth goedwigaeth a sut all fod o fudd i'r busnes fferm? gyda Dr Tim Pagella, Prifysgol Bangor – 23/07/2020

Gall amaeth goedwigaeth gymryd sawl ffurf wahanol, gyda phob un ohonynt yn gyffredin yng Nghymru:



Blociau gydag ymylon syth (fel arfer gyda mwy na 9 coeden).



Grwpiau gydag ymylon crwn (dystyrau o 5 neu mwy fel arfer).



Amlinellau gyda choed wedi'u plannu o amgylch ochr y cae (gallant fod yn mewn rhesi unigol neu lawer ohonynt).




Stribynnau yng nghanol y cae (gallant fod mewn rhesi unigol neu lawer ohonynt).



Unigol (Unigol neu lawer ohonynt fel mewn tirwedd parcdir).

Systemau Porfeydd Coediog (Lleiniau Cysgod) yw'r cyfuniad o goed gyda thir pori. Mae hyn yn cynnwys ffurfiau amrywiol o bori coedwig yn ogystal â choed a gadwyd ar dir pori i ddarparu porthiant a naill ai lloches neu gysgod, neu'r ddau, ar gyfer anifeiliaid. Hwn yw'r math mwyaf cyffredin o amaeth goedwigaeth yn y DU.

Un budd allweddol o amaeth goedwigaeth yw'r lloches y mae'n ei gynnig.



Rhwystrau unionsyth yw lleiniau cysgod sy'n galluogi gwynt i basio trwy'r canopi yn hytrach na mynd dros ei ben, gyda rhes o lwyni byrrach a dwysach ar gyfer amddiffyniaeth ar lefel isel unwaith bydd y coed wedi aeddfedu a thenuo ar y

gwaelod gan gynnig strwythur cadarn.

Mae'r ardal y mae'r lleiniau cysgod yn ei amddiffyn yn gymesurol â'u taldra. Dylai taldra mwyaf y lleiniau cysgod fod mor dal â phosib i wneud y mwyaf o'r ardal a fydd yn buddio o'r lloches, cyhyd ag y mae'r coed yn aros yn gadarn yn y gwynt.



Mae lleiniau cysgod yn addasu microhinsawdd yr ardal gyfagos gan effeithio ar gyflymder gwynt a phatrwm llif gwynt dros a thrwy'r lleiniau cul ac athraidd: gyda throellau bach parhaol yn creu parth hir o gysgod sy'n effeithio ar dymheredd yr aer, tymheredd y pridd, lleithder y pridd, lleithder, tymheredd aer y nos ac anweddiad.

## Grwpiau Trafod



Ymunodd Rhys Williams, o Precision Grazing, ag un o grwpiau trafod defaid digidol y De-orllewin i drafod systemau cynhyrchu defaid hydwyth a chynaliadwy, gan ganolbwyntio ar bori a gwell defnydd o wair.

Esboniodd Rhys mai gwair yw'r ffynhonnell rataf o borthiant sydd ar gael ar gyfer ffermwyr, gan ei fod yn costio 5c/kg/DM ar gyfartaledd, wedi'i gymharu â 10c/kg/DM ar gyfer silwair a 30c/kg/DM ar gyfer dwysfwydydd. Un o'r ffyrdd gorau i wella cynhyrchiant a lleihau costau yw gwella'r defnydd o wair, gyda Rhys yn pwysleisio mai ffermwyr glaswelltir yw ffermwyr yn gyntaf, wedyn ffermwyr da byw. Y pedwar cam allweddol er mwyn gwella'r defnydd o wair yw:

1. Cywiro ffrwythlondeb y pridd
2. Isadeiledd tir pori
3. Mesur a chyllidebu gwair
4. Ailblannu

Aeth Rhys ymlaen i drafod y tair rheol euraidd ar gyfer tir pori:

- Mae gwair yn tyfu gwair
- Pori 'ar amser'
- Cyfnod gorffwys priodol

Gan fonitro gweddillion, a glynu at yr egwyddor tair deilen, bydd tir pori a reolir yn dda yn gwella cynhyrchiant glaswelltir yn ôl y rheol gyffredinol 'tyfu mewn tair wythnos, pori mewn tri diwrnod' gan ei fod yn cymryd tair wythnos i'r planhigyn dyfu tair deilen a bydd tri diwrnod o bori yn helpu cyflawni'r gweddillion dymunol o 1,500kg/DM. Dylai pori 'ar amser' bara rhwng 1-7 diwrnod, ond mae 3-4 diwrnod yn fwy addas ar gyfer ffermydd biff a defaid. Ni fydd rowndiau sy'n hirach na 7 diwrnod yn gweld y buddiannau o bori cylchdro. Mae cael cyfnod gorffwys o 16-120 diwrnod yn bwysig ar gyfer helpu adeiladu gorchudd dros y gaeaf a chael dechrau da yn y gwanwyn. I roi'r tair rheol euraidd mewn i weithrediad, mae'n rhaid i chi ddefnyddio system pori cylchdro.

Wrth gyllidebu porthiant, mae'n bwysig i geisio cydweddu uchafbwynt y cyfnod llaetha ac uchafbwynt y tyfiant gwair. Cyflwynodd Rhys ystadegyn diddorol yr oedd wedi ei ddysgu yn Seland Newydd, bod geneteg yn cael effaith o 10% ar gynhyrchiant, gyda'r dull rheoli yn cael effaith o 90% ar gynhyrchiant. O fewn y ffigwr hwn, mae maeth i gyfrif am 80% ohono.

Yn olaf, bu Rhys yn trafod meincnodi, gan ddweud mai'r ddau ddangosydd perfformiad allweddol pwysicaf i fesur yw'r gorchudd fferm gyfartalog a sgôr cyflwr corff mamogiaid (BCS), sy'n gysylltiedig.

Gorffennodd Rhys drwy ailadrodd y negeseuon allweddol i graffu ar gostau, tyfu a defnyddio mwy o wair; mesur a monitro gorchudd fferm gyfartalog, sicrhau cyfnod gorffwys priodol ar gyfer gwair; sgorio cyflwr mamogiaid fel mater o drefn a datblygu geneteg addas ar gyfer eich system.

## E-ddysgu

Dyma rai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

RHEOLAETH PORI



GWELLA IECHYD PRIDD



DIOGELWCH PLALADDWYR



RHYWOGAETHAU GLASWELLTIR



Cliciwch yma i ymweld â'r wefan.

## Training Courses

Cyrsiau Hyfforddiant	Nifer yr unigolion a hyfforddwyd yn ystod y cyfnod hwn
Tryc Codi Telegopig ar gyfer Tir Garw	24
Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) / Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan ddefnyddio Offer Llaw (PA6)	6
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thrawslifio	5
Sgiliau Ymarferol ar gyfer Plygu Perthi	3